# COFNODION CYFARFOD BWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU / GROWING MID WALES BOARD A GYNHALIWYD DROS ZOOM DDYDD GWENER, 23 MEHEFIN 2023

**YN BRESENNOL**

**Aelodau Cabinet Cyngor Sir Ceredigion:**

Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad a Phobl a Threfniadaeth **(BD) (Cadeirydd)**
Y Cynghorydd Keith Henson, Aelod Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon **(KH)**
Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Tai, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd **(MV)**

**Aelodau Cabinet Cyngor Sir Powys:**

Y Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd ac Aelod Cabinet ar gyfer Powys Agored a Thryloyw **(JGW)**
Y Cynghorydd Aled Davies **(AD)**
Y Cynghorydd David Selby, Aelod Cabinet ar gyfer Powys Fwy Llewyrchus **(DS)**

**Swyddogion:**

Eifion Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**
Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Sir Ceredigion **(BR)**
Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Cyngor Sir Ceredigion **(EP)**
Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion **(RHP)**
Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd, Cyngor Sir Ceredigion **(JD)**
Ffion Lloyd, Cyfreithiwr, Cyngor Sir Ceredigion **(FL)**
Carwyn Jones-Evans, Rheolwr Gwasanaeth Twf a Datblygiadau Mawr, Cyngor Sir Ceredigion **(CJE)**
Nicola Williams, Arweinydd Strategol – Tyfu Canolbarth Cymru, Cyngor Sir Powys **(NW)**
Debby Jones, Arweinydd Proffesiynol – Cyfreithiol / Dirprwy Swyddog Monitro, Cyngor Sir Powys **(DJ)**
Diane Reynolds, Pennaeth Gwasanaethau Digidol, Cyngor Sir Powys **(DR)**
Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau, Tyfu Canolbarth Cymru **(CM)**
Louise Grove-White, Rheolwr Interim y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Tyfu Canolbarth Cymru **(LGW)**
David Owen, Rheolwr y Rhaglen Ddigidol, Tyfu Canolbarth Cymru **(DO)**
Angharad Massow, Swyddog Cyfathrebu, Tyfu Canolbarth Cymru **(AM)**
Stacey-Jayne Oakham, Swyddog Dadansoddi a Chefnogi Portffolio, Tyfu Canolbarth Cymru **(SO)**

| 1. | CROESO AC YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Clive Davies, Aelod Cabinet ar gyfer yr Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion; y Cynghorydd Matthew Dorrance, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet ar gyfer Powys Decach, Cyngor Sir Powys; y Cynghorydd Amanda Jenner, Cyngor Sir Powys; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Ceredigion; Jack Straw, Prif Weithredwr Interim, Cyngor Sir Powys; Clive

Pinney, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Cyngor Sir Powys; ac Ann Watkin, Pennaeth Strategaeth, Alinio a Chynllunio Gweithrediadau, Llywodraeth Cymru.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. COFNODION DRAFFT Y CYFARFOD DIWETHAF 28/03/2023

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2023 yn gofnod cywir.

## 4. PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL CANOLBARTH CYMRU

Cyflwynodd LGW Ddiweddariad ynghylch Cynnydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru. Cafodd Digwyddiad y Gwanwyn y Bartneriaeth ei gynnal yng Ngwesty'r Metropole yn Llandrindod ar 23 Mawrth 2023, a'i fwriad oedd ymgysylltu â busnesau i nodi eu blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi rhanbarthol er mwyn hybu swyddi a thwf yn rhanbarth Canolbarth Cymru a deall y rhwystrau o ran sgiliau a recriwtio. Cafwyd areithiau croesawu gan Arweinydd Cyngor Sir Powys, y Cynghorydd James Gibson-Watt, Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, y Cynghorydd Alun Williams, a Chadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Emma Thomas. Yn rhan o agenda'r diwrnod ymunodd Vaughan Gething AS â'r digwyddiad, drwy fideo a oedd wedi'i recordio ymlaen llaw, i lansio'n swyddogol y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd a'r Cynllun Gweithredu. Arweiniodd Tom Yeo, Arweinydd Ynni Tyfu Canolbarth Cymru, a Grant Thomas, Dadansoddwr Gwariant Caffael a Marchnadoedd, Cyngor Sir Powys, gyflwyniadau addysgiadol ynghylch Sero Net a manteision amgylcheddol ac economaidd cyd-fynd ag adroddiad Llywodraeth Cymru ynghylch Cymru Sero Net. Roedd 61 o gynrychiolwyr o 17 o sefydliadau'n bresennol yn y digwyddiad, a chyfrannodd pob un ohonynt i'r trafodaethau bord gron rhyngweithiol er mwyn deall y rhwystrau o ran sgiliau a recriwtio, a hwyluswyd gan Alun Jones (cyn-Brif Weithredwr Menter a Busnes). Cafodd busnesau eu gwahodd i gofrestru eu diddordeb mewn mynychu cyfarfod cyntaf y grŵp clwstwr ar gyfer busnesau, ymuno â rhestr bostio Tyfu Canolbarth Cymru a lawrlwytho copi o'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd a'r Cynllun Gweithredu.

Cafodd cyfarfod cyntaf Grŵp Clwstwr ar gyfer Busnesau y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ei gynnal ar 15 Mai 2023 yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Roedd 18 busnes o wahanol faint yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf ac roeddent yn cynrychioli nifer o sectorau blaenoriaethol gan gynnwys y sector digidol, y sector twristiaeth, y sector ynni, y sector gweithgynhyrchu, y sector ymchwil ac arloesi a'r sector bwyd a diod. Bu'r gweithgarwch cyfathrebu ynghylch yr alwad agored ar gyfer cyfarfod cyntaf y grŵp clwstwr yn canolbwyntio ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar dargedu rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol er mwyn dosbarthu'r gwahoddiad drwy eu rhwydweithiau nhw o fusnesau. Roedd y negeseuon allweddol yn dilyn y digwyddiad hwn yn cyd-fynd â barn busnesau yn Nigwyddiad y Gwanwyn – gwnaethant nodi problemau'n ymwneud â recriwtio a chadw staff, cysylltedd a natur wledig y rhanbarth, a diffyg darpariaeth briodol a hyblyg o ran hyfforddiant ar draws y rhanbarth. Bydd yr eitemau a fydd ar agendâu'r dyfodol yn mynd i'r afael â'r

problemau hyn er mwyn cael rhagor o wybodaeth a arweinir gan gyflogwyr, a fydd yn fodd i oleuo'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ymhellach ynghylch y rhwystrau y mae busnesau'n eu hwynebu ar draws y rhanbarth. Bydd cyfarfod nesaf y grŵp clwstwr ar gyfer busnesau'n cael ei gynnal ar 4 Gorffennaf 2023 yn y Drenewydd. Bydd is-grwpiau'n cael eu ffurfio yn y dyfodol ar gyfer y grŵp clwstwr hwn er mwyn canolbwyntio ar y sector digidol a'r sector sero net yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (Atodlen 2). Bydd Cadeirydd yn cael ei enwebu o blith un o'r sefydliadau sy'n aelodau o bob grŵp. Cyfrifoldeb y Cadeiryddion fydd adrodd yn ôl i Fwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol pan fo'n briodol.

Roedd copi drafft o weithgareddau Atodlen 2 Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer 2023/24 wedi'i ddosbarthu i bob un o'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Cafodd y ddogfen ei chwblhau yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2023 ar gyfer Rheolwyr a Chadeiryddion y Partneriaethau.

Roedd Aggie Caesar-Homden wedi symud i swydd newydd yng Nghyngor Sir Powys, felly roedd Louise Grove-White, Swyddog Prosiect presennol y Bartneriaeth, wedi cymryd swydd Rheolwr Interim y Bartneriaeth tan 30 Mehefin 2023. Byddai Rheolwr newydd y Bartneriaeth yn dechrau ar ei swydd ar 3 Gorffennaf 2023.

Diolchodd y Cadeirydd i Louise Grove-White am ei gwaith fel Rheolwr Interim y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. O gofio'r rhwystrau'n ymwneud â sgiliau a recriwtio a nodwyd yn Nigwyddiad y Gwanwyn y Bartneriaeth, roedd cysylltu â'r sector preifat yng Ngheredigion a Phowys yn hollbwysig.

**PENDERFYNWYD**

- Nodi cynnydd hyd yma.

| 5. | BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU |
|---|---|

Esboniodd CJE, ers i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru gymeradwyo Achos Busnes Strategol wedi'i ddiweddaru y Portffolio (fersiwn 2.1) a'r dogfennau ategol ar 28 Mawrth 2023, fod y dogfennau wedi'u cyflwyno yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'w hadolygu yn rhan o'r broses o ystyried rhoi Llythyr Dyfarnu Grant ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Mae'r adborth a gafwyd hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac roedd yn fater yn awr o fynd drwy'r manylion. Mae'r Adolygiad Sicrwydd ym mis Chwefror, a roddodd y Fargen Twf yn y categori Oren/Gwyrdd, wedi helpu i gyfrannu i'r sefyllfa gadarnhaol hon ac yn dangos bod y rhanbarth yn barod i gael y cyllid ac i symud ymlaen i gyflawni'r Fargen Twf. Erbyn hyn, roedd ystyriaeth i ddyfarnu'r cyllid i Ganolbarth Cymru yn dilyn proses a nodwyd rhwng y ddwy Lywodraeth.

Rhoddwyd trosolwg o waith cyflawni a llywodraethu ac o adnoddau a chyllid, fel y nodwyd yn yr adroddiad. O ran Proffil Cyfalaf, yn dilyn trafodaethau â'r ddwy Lywodraeth, mae ymarfer ailbroffilio wedi'i gynnal yng nghyswllt y cyllid sydd i'w ryddhau i'r rhanbarth ar gyfer y flwyddyn gyntaf, a oedd yn cyd-fynd yn well â'r gwariant a ragwelir yn hytrach na bod ei broffil yn wastad. Roedd trafodaethau wedi'u cynnal â'r Swyddog Adran 151 ynghylch sut mae symud ymlaen ac mae cynigion wedi'u cyflwyno i'r ddwy Lywodraeth. Disgwylid ymateb maes o law.

Roedd sicrhau'r Buddsoddi gan y Sector Preifat, sy'n ofynnol i gyflawni'r Fargen

Twf, yn dal yn risg uchel ar draws y Portffolio ac roedd yn rhywbeth y mae'r ddwy Lywodraeth yn pryderu amdano. Cynigiwyd bod y Grŵp Cynghori Economaidd yn perchenogi'r Strategaeth ar gyfer Buddsoddi gan y Sector Preifat. Roedd y gwaith o egluro ei rôl o ran cyflawni wedi bod yn mynd yn ei flaen yn dda ac roedd nifer o drafodaethau wedi'u cynnal hyd yma. Yn ystod cyfarfod y Cyd-bwyllgor Corfforedig a oedd wedi'i gynnal yn gynharach yn ystod y dydd, nodwyd bod angen gwneud gwaith i ystyried y broses er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal yn rheolaidd â Bargeinion Twf Gogledd Cymru ac Abertawe i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu oddi wrth ei gilydd.

Roedd y Gofrestr Risg a Materion wedi'i diweddaru ac roedd risgiau eraill wedi'u hychwanegu er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ac argymhellion Adolygiad Sicrwydd y Portffolio. Rhoddwyd trosolwg o'r prif risgiau presennol ynghyd â diweddariadau ynghylch gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Roedd yn fwriad cyhoeddi datganiad i'r wasg pan fyddai Llythyr Dyfarnu Grant y Fargen Twf yn cael ei roi, ac roedd yn fwriad rhyddhau fideo wedi'i recordio ymlaen llaw a oedd yn cynnwys Arweinwyr y ddau awdurdod lleol yn trafod y buddsoddiad. At hynny, roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt â'r ddwy Lywodraeth i drefnu bod Gweinidogion yn ymweld â'r rhanbarth i gwrdd â'r Arweinwyr ar ôl i'r Llythyr Dyfarnu Grant gael ei roi. Roedd derbynwest sydd i'w chynnal ar fore dydd Llun y Sioe Fawr eleni wrthi'n cael ei threfnu er mwyn trafod y Fargen Twf a sgiliau yn y rhanbarth.

Aeth CJE yn ei flaen i gyflwyno'r camau nesaf, fel yr oeddent wedi'u nodi yn yr adroddiad. Yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, roeddent yn disgwyl i'r prosiectau gyflwyno eu Hachos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol. Rhoddwyd trosolwg o'r Fframwaith Arfarnu Achosion Busnes Amlinellol. Y prif wahaniaeth rhwng yr Achos Amlinellol Strategol a'r Achos Busnes Amlinellol oedd lefel y manylder a oedd yn ofynnol, a oedd yn cynnwys datblygu strategaeth gaffael. Roedd adran ychwanegol, a oedd yn canolbwyntio ar Agenda Ddatgarboneiddio'r prosiect, wedi'i chynnwys.

**PENDERFYNWYD**
- Nodi cynnydd hyd yma.
- Nodi'r broses ar gyfer arfarnu Achosion Busnes Amlinellol.

Cyfeiriwyd at y ddwy raglen (y Rhaglen Ddigidol a'r Rhaglen Safleoedd ac Eiddo) a'r 9 prosiect annibynnol. Roedd pob prosiect yn y categori oren ar hyn o bryd, wrth ddisgwyl am y rownd nesaf o achosion busnes. Roedd y tîm yn cyfathrebu rhywfaint â'r prosiectau. Roedd angen ennyn hyder y ddwy Lywodraeth, oherwydd fel arall byddai angen adolygu'r Portffolio.

Wrth ymateb i gwestiwn am gysylltedd digidol cadarnhaodd DO fod darparwr band eang, a oedd wedi ystyried cysylltu tua 11,500 eiddo yn y canolbarth, yn awr yn nwylo gweinyddwyr. Ers hynny, roedd wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r Llywodraeth ac roedd ymarfer caffael mawr a reolir gan Lywodraeth y DU ar fin cael ei gynnal ar draws Cymru yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Byddai tua 39,000 eiddo, gan gynnwys y rhai yr oedd methiant y darparwr band eang wedi effeithio arnynt, yn cael eu hystyried yn yr ymarfer caffael. Roedd y buddsoddiad yn werth £54 miliwn.

Nododd DJ fod y gwaith o gysylltu eiddo anghysbell ym Mhowys wedi'i osod ar

dendr a bod y tendr hwnnw ar fin cael ei lofnodi. O ran yr eiddo yr oedd methiant y darparwr band eang wedi effeithio arnynt, roedd yr awdurdod lleol yn monitro’r sefyllfa. Pe na bai unrhyw gynnydd, byddai’r gwaith hwnnw’n cael ei osod ar dendr hefyd.

Awgrymodd JGW fod angen ystyried lefelau cyflogaeth yn ofalus, nid yn unig yn uniongyrchol o’r rhaglenni a’r prosiectau ond hefyd yn anuniongyrchol.

| 6. | **UNRHYW FATER ARALL** |
|---|---|

Dim.

| 7. | **DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF** |
|---|---|

29 Medi 2023 – Rhithiol
15 Rhagfyr 2023 – Rhithiol

**Y Cynghorydd Sir Bryan Davies**
**Cadeirydd**